DAN DO MÔN

Cylchlythyr i fudiadau gwirfoddol Ynys Môn
Rhif Elusen 1088828 Rhif Cwmni 4197934 Rhifyn 60 Tachwedd 2006

CRONFA ALLWEDDOL – MÔNGALLWN II – MEDRWN MÔN

Os ydych yn grwp neu fudiad gweithredol yn eich cymuned ac hefo prosiectau cyfalaf neu refeniw all gyfrannu tuag at adfywio lleol mae'n bosib y gall Cronfa Allweddol Medrwn Môn eich cynorthwyo.

Croesawir ceisiadau i'r Gronfa Allweddol gan ardaloedd a dargedir yn unol â chyfarwyddyd Undeb Ewropeaidd – ardaloedd Amcan 1 Blaenoriaeth 3:Llanfaethlu, Mechell, Llanbadrig, Amlwch, Llaneilian, Moelfre, Llanner-chymedd, Rhosyr, Bodorgan, Aberffraw, Caergybi, Llangefni (Ward Tudur), Rhosneigr, Bryngwran a Trewalchmai.

I fod yn gymwys i ymgeisio i'r Gronfa Allweddol rhaid i unrhyw grwp neu fudiad gael cyfansoddiad, cyfrifon a chyfrif banc, a chydymffurfio â'r meini prawf a chanllawiau'r Gronfa.

Am fwy o wybodaeth neu sgwrs anffurfiol i drafod eich prosiect cysylltwch â Henri Hughes yn Medrwn Môn ar 01248 724944.

Ariennir y gronfa yma drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru,
Yr Undeb Ewropeaidd (ERDF) a'r Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac fe'i gweinyddir gan Medrwn Môn.

Grant Offer Bychan i Blant dan 10 oed

Mae £3500 ar gael i'w rannu i grwpiau gwirfoddol sydd yn ymwneud â phlant dan 10 oed ar Ynys Môn. Llynedd rhannwyd y grant rhwng 36 o grwpiau llwyddiannus. Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 1 Rhagfyr 2006.

Am ffurflen gais a manylion cysylltwch â Medrwn Môn ar 01248 724944.

Nid yw'n anorfod mai barn Medrwn Môn a fynegir yn y cyhoeddiad hwn. Cadw'n yr hawl i olygu cyn cyhoeddi. Dyluniwyd a dosbarthwyd y cylchlythyr hwn gan Medrwn Môn.

CYFARFOD BLYNYDDOL 2006

Cyfarfod Blynyddol Medrwn Môn 2006

Dathlwyd Cyfarfod Blynyddol 2006 Medrwn Môn yng ngwesty'r Royal Victoria Porthaethwy, Dydd Iau 28ain o Fedi efo dros 30 o unigolion / gwahoddedigion yn bresennol, yn cynrychioli trawstoriad eang o gynrychiolaeth o'r sector gwirfoddol / cymunedol ar yr ynys.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Eiluned Ann.B.Thomas, a diolchodd i bawb am eu hymglymiad a'u brwdfrydedd oddi fewn i'r sector wirfoddol yn ystod y flwyddyn.
Diweddodd y Cadeirydd trwy ddiolch i'w chyd-ymddiriedolwyr, a staff am eu cefnogaeth, i'r holl wirfoddolwyr a grwpiau gwirfoddol am eu hymdrech diflino, gan bwysleisio'r angen am well cydweithio rhwng mudiadau oddi fewn i'n cymunedau gydag adnoddau prin.

Amlygodd Prif Swyddog Medrwn Môn, John R. Jones, y llwyddiannau yn ystod y flwyddyn, a'r sialensiau sy'n wynebu'r sector gwirfoddol.
Dywedodd â balchder bod ystadegau a dderbyniwyd yn ddiweddar yn rhoi mewnwelediad i wir werth cyfraniad ag effaith grwpiau gwirfoddol ac unigolion ar Ynys Môn.

- Dros 600 grwp gwirfoddol ar yr ynys, efo dros 100 o grwpiau wedi eu lleoli oddi ar yr ynys ond yn gweithio'n uniongyrchol ar Ynys Môn.
- Dros 6,000 o ymddiriedolwyr ar grwpiau gwirfoddol, efo dros 8,000 o wirfoddolwyr ar Ynys Môn.
- Cyfanswm incwm a gynhyrchwyd i economi leol Ynys Môn yn 29 miliwn, efo gwariant o 27 miliwn.

Nodwyd gan John R. Jones pwysigrwydd rôl y sector, y brwdfrydedd a'r cyfraniad a wneir yn ein cymunedau.

CYFARFOD BLYNYDDOL 2006

Yn dilyn derbyn yr adroddiad cyllidol gan y trysorydd, Emyr Buckland, cadarnhawyd ethol yr ymddiriedolwyr / cyfarwyddwyr canlynol:

Molly Pilbeam – Cymdeithas Clefyd Parkinson
Christopher Evans – AGAIN
T Richard Griffith – Cymdeithas Pysgota Cefni
Betty Williams – Fforwm Anabledd Taran Cyf
Emyr Buckland – Cymdeithas Gogledd Cymru o'r Deillion
Jean Baker – Ymddiriedolaeth Treftadaeth Gymunedol Porthaethwy Cyf

Ail etholwyd y swyddogion canlynol am 2006 / 2007

Cadeirydd – Eiluned Ann.B.Thomas Is-gadeirydd - Eileen Clark
Trysorydd – Emyr Buckland

Siaradwr gwadd yn y cyfarfod oedd cyn Is-ysgrifennydd Gwladol Cymru Mr Win Griffiths, Cadeirydd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Bu Mr Griffiths yn A.S. dros Ben y Bont ar Ogwr nes sefyll lawr y llynedd yn yr etholiadau cyffredinol. Yn ystod ei yrfa boliticaidd, bu'n bencampwr hawliau plant a'r mudiad gwrth-apartheid.

Bu i Win Griffiths rannu ei brofiadau presennol a gorffennol gan bwysleisio pwysigrwydd cydweithio mewn partneriaeth, ymwybyddiaeth o gynlluniau a blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol, ac o'r angen am feddwl cysylltiol wrth weithio yn y sector gwirfoddol / cymunedol.

Gorffennodd trwy longyfarch gwirfoddolwyr a grwpiau o'u cyfraniadau gwerthfawr oddi fewn i gymunedau lleol ar yr ynys.

Derbyniwyd cwestiynau ac atebion o'r llawr i Mr Griffiths

Gorffennodd y cyfarfod efo trafodaeth anffurfiol a lluniaeth ysgafn.

NEWYDDION CYLLIDO

Ymddiriedolaeth Dulverton

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyhoeddi canllawiau newydd.
Mae mwyafrif o waith yr Ymddiriedolaeth yn cefnogi elusennau cenedlaethol a rhanbarthol yn Lloegr, Cymru a'r Alban, yn neilltuol mewn ardaloedd sy'n dangos swm sylweddol o amddifadedd, ac yn arbennig ble byddai grant yn gwneud gwir wahaniaeth.

Ystyrir ceisiadau gan elusennau cofrestredig, neu rhai â statws elusennol cydnabyddedig swyddogol yn unig.

Prif gategorïau cyllido yw:

- Ieuenctid ac addysg
- Lles cyffredinol
- Cadwraeth
- Crefydd
- Heddwch, diogelwch ac amrywiol

Mwy o wybodaeth ar gael o: www.dulverton.org

Sefydliad Rayne

Mae'n rhaid i geisiadau am grantiau syrthio oddi fewn i bedwar categori a gyllidir gan y Sefydliad:

- Celfyddydau
- Addysg
- Iechyd / Meddygaeth
- Lles cymdeithasol a datblygiad

Fe ddyfarnir grantiau i fudiadau a phwrpas elusennol wedi eu cofrestru ac yn gweithio yn y DU. Cefnogir mudiadau cenedlaethol yn ogystal.

Darparir cyllid i gostau cyfalaf offer ac adeiladau, cyflogau a chostau prosiect eraill, costau cyffredinol neu gostau craidd,
apeliadau cyffredinol, prosiectau sy'n barod wedi cychwyn,
astudiaethau dichonoldeb.

Mwy o wybodaeth ar gael o: www.raynefoundation.org.uk

DIWRNOD GWYBODAETH CYLLID

Diwrnod Gwybodaeth Cyllid Medrwn Môn

Mae miliynau o bunnoedd o gymorth grantiau i gyllido prosiectau a chreu cyflogaeth yn aros i'w ddefnyddio, sut y ceir gafael arno ydi'r cwestiwn mawr?

Gobeithio yr atebwyd hyn i lawer yn ddiweddar, gan i dorf fawr o unigolion lenwi Neuadd Eglwys St Cyngar yn Llangefni o dan drefniant Medrwn Môn ble cynhaliwyd diwrnod gwybodaeth cyllid, i ddiweddaru grwpiau a mudiadau gwirfoddol / cymunedol ar ffynonellau posib o gyllido.

Croesawyd pawb gan gadeirydd Medrwn Môn, Eiluned Ann.B.Thomas, gan obeithio y byddai holl grwpiau'n bresennol yn derbyn gwybodaeth berthnasol gan y siaradwyr i ddilyn i fyny ar geisiadau cyllido i brosiectau gwerth chweil.

Cafwyd cyflwyniadau gan Deian Creunant, pennaeth cysylltiadau allanol efo'r Gronfa Loteri Fawr ar eu rhaglenni cyfredol, ond yn arbennig ar eu rhaglen a lansiwyd yn ddiweddar 'Pawb a'i Le' a'u rhaglen grantiau bychan ' Arian i Bawb Cymru'

Nododd Marc Phillips, Cydlynydd Cenedlaethol Plant mewn Angen, y meini prawf angenrheidiol i gael at gronfeydd posib, ac ar lwyddiannau lleol.

Cyflwynodd Dewi Gough Jones, uwch swyddog hamdden â chyfrifoldeb am y gymuned a grantiau wybodaeth ar beth oedd ar gael trwy'r cyfleusterau cymunedol a chronfa'r Degwm.

Amlinellodd Sian Mai Jones, uwch swyddog uned datblygu chwaraeon, y broses hawdd o ymgeisio i Gist Gymunedol Môn lle estynnwyd y rhaglen yma i gefnogi grwpiau ynghlwm wrth faterion iechyd a ffitrwydd, yn ogystal â chlybiau a chymdeithasau mwy traddodiadol.

Diweddwyd y bore efo Henri Hughes, gweinyddwr Cronfa Allweddol Medrwn Môn, yn nodi canllawiau am gyllid i gefnogi grwpiau gwirfoddol ynghlwm wrth adfywio a datblygiad.

Dywedodd Prif Swyddog Medrwn Môn, John R.Jones, " Mae'r sesiynau cyllido yma bob tro yn ddefnyddiol i grwpiau a mudiadau i dderbyn gwybodaeth ar grantiau posib i gynorthwyo yn eu dilyniant. Nodir pob tro gan gyllidwyr bod rhai ceisiadau o ansawdd gwael - mae swyddogion Medrwn Môn ar gael i gynorthwyo grwpiau efo ceisiadau cyllidol."

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Medrwn Môn ar 01248 724944.

NEWYDDION SECTOR GWIRFODDOL

Seilwaith y Sector Gwirfoddol - Diweddariad ar y Cytundeb Partneriaeth

Cefndir:

Y llynedd llofnodwyd y Cytundeb Partneriaeth rhwng Llywodraeth y Cynulliad, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), Cynghorau Gwrofoddol Sirol (CGS), a chanolfannau gwirfoddoli annibynnol. Roedd y cytundeb arloesol hwn yn gydnabyddiaeth ffurfiol o rôl Cynghorau Gwirfoddol Sirol, canolfannau gwirfoddoli a CGGC fel tair elfen seilwaith y sector gwirfoddol. Yr oedd yn cynnwys ymrwymiad pum mlynedd i gyllido, ac yr oedd yn cyflwyno, am y tro cyntaf, cyllid craidd i ganolfannau gwirfoddoli. Gan gadw at ysbryd *Creu'r Cysylltiadau,* mae'r seilwaith wedi ymrwymo i weithio gyda'i gilydd ar draws ffiniau i ganfod y ffordd orau i ddiwallu anghenion y trydydd sector, ac i osgoi ailadrodd unrhyw waith i'r graddau posib er mwyn rhyddhau adnoddau ar gyfer gwasanaethau rheng flaen.

Yr Her:

Yn seiliedig ar *Creu'r Cysylltiadau,* yr her i'r seilwaith yw dangos ei fod yn canolbwyntio ar y dinesydd – yn ymateb i'r ymddiriedolwyr, gwirfoddolwyr, cyflogwyr, aelodau a buddiolwyr sydd i gyd yn rhan o'r trydydd sector. Rhaid iddo ddilyn safonau gwasanaeth ddiffiniedig sy'n datgan yn eglur yr hyn all gwasanaethau a grwpiau cymorth ddisgwyl ei dderbyn. Mae angen iddo fod yn fwy cysylltiedig, yn gweithio i wasanaeth diffiniedig sy'n tanategu lleisiau a gweithredu yng Nghymru.

Manylebau gwasanaeth newydd:

Yn ystod y 9 mis diwethaf, mae Grŵp Craidd Seilwaith wedi llunio manylebau ar y cyd, sy'n cael eu hategu gan fframweithiau hyfforddi a gwybodaeth gynhwysfawr, gan nodi pwy sy'n gwneud beth i ddiwallu anghenion y sector ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol, a lleol.

Mae'r manylebau yn cynnwys:

- Gwirfoddoli
- Ymddiriedolwyr a threfniadau llywodraeth
- Cyngor ar gyllido
- Gwybodaeth gyffredinol, arweiniad a chefnogaeth
- Polisïau, hwyluso a chynrychiolaeth
- Datblygu, cynlluniau ac adfywio

Camau nesaf:

Ar gyfer y dyfodol agos, mae CGS, canolfannau gwirfoddoli a CGGC i gyd yn paratoi cynllun cyflenwi fydd yn amlinellu eu darpariaeth nhw o'r manylebau gwasanaeth, a'u targedau ar gyfer 2007 / 8.

NEWYDDION

Cyfleon newydd i grwpiau yn sgil newidiadau i'r Gronfa Risg

Bydd newidiadau cyffrous i'r Gronfa Risg Gymdeithasol yn golygu y bydd rhagor o grwpiau a phrosiectau cymunedol a gwirfoddol bach yn gymwys i dderbyn grantiau o hyd at £10,000.

Mae'r cynllun sy'n cael ei reoli gan WCVA a'i ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop, wedi dosbarthu dros £4.3m hyd yma i dros 400 o brosiectau, gyda 180 arall eto i'w cefnogi cyn mis Mawrth 2007. Mae wedi cyfrannu at adfywio cymunedau trwy gefnogi pobl i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder, a thrwy ehangu cyfranogiad mewn cynlluniau dysgu gydol oes a darparu llwybrau tuag at gyflogaeth i grwpiau difreintiedig.

Yn dilyn ymgynghori dwys, mae'r canlynol yn newidiadau i feini prawf y cynllun:

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw Mawrth 2007

Mae mudiadau mewn ardaloedd Amcan 1 yn gymwys am hyd at dri phrosiect Risg Gymdeithasol ac mae'r rhai mewn ardaloedd Amcan 3 yn gymwys hyd at ddau brosiect Risg Gymdeithasol.

Rhaid i fudiadau sy'n gwneud cais am arian gael incwm o lai na £150,000 (£100,000 cynt)

Mae cyfyngiad oed buddiolwyr prosiect mewn ardaloedd Amcan 1 wedi gostwng er mwyn cynnwys pobl ifanc rhwng 14 a 16 sydd wedi eu dadrithio.

Bydd tîm o ymgynghorwyr Risg Gymdeithasol a leolir ledled Cymru wrth law i helpu i ddatblygu syniadau ar gyfer prosiectau, cynorthwyo i lenwi'r ffurflenni cais, a chynnig cefnogaeth gyda'r gwaith monitro a chadw cofnodion.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: Lein Gymorth ar 0870 607 1666 neu ymwelwch â'r wefan ar: www.wcva.org.uk/europe

Wales Council for Voluntary Action
Supporting charities, volunteers and communities
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Yn cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

NEWYDDION LLEOL

AROLWG GWASANAETHAU AELODAU MEDRWN MÔN

Fel aelod o Medrwn Môn dylech fod wedi derbyn holiadur i'w gwblhau yn ddiweddar. Buasem yn hynod o ddiolchgar petaech yn cymryd yr amser i'w chwblhau a'i dychwelyd i ni cyn gynted â phosib. Mae'r arolwg yn hynod o bwysig, gan y bydd yn ein galluogi i ddarganfod beth mae'r aelodaeth yn feddwl am yr hyn 'rydym yn darparu nawr, yn ogystal ag edrych ar ddatblygiadau'r dyfodol.

Cyswllt

Cyswllt yw'r unig fudiad lleol sy'n darparu cefnogaeth arbenigol, cyngor a gwybodaeth i blant sydd â nam clywedol a'u teuluoedd, drwy Wynedd ac Ynys Môn. Cynigir gwasanaethau fel cefnogaeth un i un, cyngor, gwybodaeth ac eiriolaeth, asesiadau ar ran y Timau Arbenigol Plant (Gwasanaethau Cymdeithasol), asesiadau a chyfeiriad am offer, cefnogaeth gyda cheisiadau lles, a chynghori.

Os oes gan eich plentyn nam clywedol neu os ydych yn gwybod am deulu angen cefnogaeth, cysylltwch â Cyswllt am fwy o wybodaeth:

F12, InTec, Ffordd y Parc, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL57 4FG

Ffôn: 01248 672624 Ffacs: 01248 672601 Minicom: 01248 672639

Cynllun Buddsoddi i Gryfhau Gwirfoddoli (CBGG)

Sefydlwyd y Cynllun Buddsoddi i Gryfhau Gwirfoddoli (CBGG) i gryfhau cyfraniad gwirfoddoli gan unigolion gydag anghenion arbennig. Hyd yn hyn mae'r cynllun wedi bod yn llwyddiannus iawn hefo 386 o wirfoddolwyr ar ein llyfrau a 54 o gyfleoedd gwirfoddol newydd ers dechrau'r cynllun yn 2004.

Mae yna lawer o enghreifftiau o sut mae gwirfoddoli wedi newid bywyd bobl. Un enghraifft o hyn yw gwirfoddolwr hefo cefndir o gamddefnyddio cyffuriau ac wedi mynd trwy adferiad ac fel rhan o'r unigolyn yn ail adeiladu ei bywyd, penderfynodd wirfoddoli:

"Roeddwn yn teimlo oherwydd y gorffennol na allwn gael fy nghyflogi. Pwy fuasai fy angen? Wedyn clywais am Medrwn Môn sydd yn helpu pobl yn ôl i waith trwy wirfoddoli.

Saith mis ar ôl cerdded i mewn i swyddfa Medrwn Môn cefais swydd gweithiwr prosiect yn y Goleudy. Mae Medrwn Môn a'r swyddog CBGG wedi fy helpu i gael hyder yn fy hun i gyflawni fy mreuddwyd. Mae gan fy mhlant a minnau ddyfodol mwy disglair i edrych ymlaen ato a fedrwn i ddim diolch digon i Medrwn Môn a'r swyddog CBGG."

HYFFORDDIANT

Rheoli Amser

Bydd y cwrs deuddydd yma yn eich helpu i ddeall sut i gymryd trosolwg o brosiect, blaenoriaethu prif drefn digwyddiadau a chyrraedd targedau amser oddi fewn i'ch cylch gwaith.

Dydd Mawrth, 16eg a 23ain Ionawr 2007 10.00am – 3.30pm
Ystafell Bwyllgor 2, Swyddfeydd Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni.

Dyddiad cau: 3ydd Ionawr 2007 Cost: £13.00 yn cynnwys cinio

Monitro a Gwerthuso

Bydd y cwrs deuddydd yma yn eich helpu i ddeall y gwahaniaeth rhwng monitro a gwerthuso. Bydd y cwrs yn ymwneud â dulliau gwahanol o fonitro a'r modd y cant eu defnyddio mewn sefyllfaoedd gwahanol. Bydd y cwrs hefyd yn ymdrin ag amrywiaeth o dechnegau a ddefnyddir i gasglu, coladu a gwerthuso'r wybodaeth a gasglwyd drwy'r system fonitro. Bydd angen ymgymryd ag astudiaeth gartref er mwyn ennill cymhwyster.

Dydd Mawrth, 6ed a 13eg Chwefror 2007 10.00am – 3.30pm
Ystafell Bwyllgor 2, Swyddfeydd Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni.

Dyddiad cau: 23ain Ionawr 2007 Cost: £13.00 yn cynnwys cinio

Cwrs Sylfaen Cruse mewn Cwnsela yn Sgil Profedigaeth Mis Ionawr 2007

Cwrs trylwyr 48 awr mewn cwnsela yn sgil profedigaeth yw hwn. Mae'r cwrs wedi ei ddylunio i hyfforddi gwirfoddolwyr ar gyfer Cruse, ond byddai o fudd i bobl broffesiynol sy'n delio â phobl yn eu profedigaeth yn eu gwaith.

Cynhelir noson wybodaeth anffurfiol ar 5ed Rhagfyr rhwng 6.30pm a 8.30pm yng Nghanolfan Addysg Ysbyty Gwynedd.

Am fwy o wybodaeth ffoniwch 08702 402 758.

GWYBODAETH

Ymgyrch Achub y Plant i roi terfyn ar dlodi plant yng Nghymru

Mae mwy nag un o bob pedwar plentyn yng Nghymru yn byw mewn tlodi. Mae hyn gyfystyr â 175,000 o blant. Mae llawer o'r plant hyn yn cael eu hamddifadu o eitemau hanfodol fel dillad ac esgidiau newydd, byw mewn cartref sych a chynnes a chymryd rhan mewn gweithgareddau plentyndod gyda'u cyfoedion. Mae Achub y Plant yn lansio ymgyrch gyhoeddus sylweddol – i geisio perswadio'r llywodraeth i roi terfyn ar dlodi plant.

Mae Achub y Plant yn arbennig o bryderus ynghylch y 50,000 o blant yng Nghymru sy'n byw gyda'r tlodi caletaf – mewn teuluoedd sy'n ceisio byw ar lai na 40% o incwm cyfartalog.

Mae Achub y Plant wedi cyhoeddi adroddiad sydd wedi'i seilio ar gyfweliadau wyneb-yn-wyneb gyda rhai o deuluoedd tlotaf y DU. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod y teuluoedd hyn yn ei chael hi'n anodd fforddio hyd yn oed hanfodion sylfaenol, megis pryd dechau, gwely cynnes, a dillad ar gyfer y gaeaf, ac maent yn wynebu benthyg gan ffrindiau, teulu a hyd yn oed benthycwyr stepen drws. Mae'r ymchwil hefyd yn dangos bod rhai adegau o'r flwyddyn yn arbennig o anodd i deuluoedd ymdopi'n ariannol – megis dechrau tymor ysgol newydd, a'r gaeaf, pan fydd costau tanwydd yn uwch.

Yma yng Nghymru, rydym wedi gweld Llywodraeth Cynulliad Cymru yn amlinellu eu targedau ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant, ond mae Achub y Plant yn credu bod angen i fwy gael ei wneud ar lefel llywodraeth y DU, lle gorffwys y cyfrifoldeb dros drethi a budd-daliadau, er mwyn cael gwared â thlodi yng Nghymru. Mae Achub y Plant wedi galw ar lywodraeth y DU i gyflwyno dau grant tymhorol ar gyfer plant mewn teuluoedd sy'n byw ar incwm isel - ac maent yn argymell £100 y plentyn yn yr haf a £100 y plentyn yn y gaeaf - gyda £100 ychwanegol i bob aelwyd yn y gaeaf er mwyn helpu gyda biliau tanwydd uwch. Mae grantiau tanwydd gaeaf ar gyfer pensiynwyr eisoes yn dangos sut mae targedu grwpiau agored i niwed yn gallu gweithio.

Mae'r llywodraeth yn annhebygol iawn o weithredu heb bwysau'r cyhoedd. Felly mae Achub y Plant yn annog cymaint o bobl â phosib i ymuno â'r ymgyrch o gefnogaeth gyhoeddus nad oes modd i wleidyddion ei anwybyddu. I helpu e-bostiwch ar lein, www.savethechildren.org.uk/endchildpoverty neu:walesinfo@savethechildren.org.uk Ffon: 02920 396838.

EIN CYFEIRIAD YW:
Neuadd y Sir, Ffordd Glanhwfa
LLANGEFNI
Ynys Môn LL77 7EN
Ffôn: 01248 724944
Ffacs: 01248 750149
E-bost: post@medrwnmon.org
Safle We: www.medrwnmon.org

HYFFORDDIANT - CGGC

Hyfforddiant Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Chyfranogaeth

Modiwl 1 – 18 Ionawr 2007 Gogledd Cymru
Modiwl 2 a 3 – 23 a 24 Ionawr 2007

Costau Modiwl: Modiwl 1 yn unig: £165 Modiwlau 1,2 a 3: £350

Cwrs modiwlar dwys tridiau i staff gwasanaethau cyhoeddus sy'n gyfrifol am ymgysylltu â'r gymuned a chyfranogaeth gyhoeddus yw hwn. Anelir y tri modiwl at bobl sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus, yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn awdurdodau lleol, ac yn y sector iechyd, sydd yn gyfrifol am ymgysylltu â'r cyhoedd. Anelir Modiwl 1 hefyd at y bobl hynny sy'n gweithio ar lefel rheolwyr uwch a bod gofyn i'w hadrannau ymgynghori â'r cyhoedd a chymunedau a/neu ymgysylltu â nhw fel rhan o agenda Creu'r Cysylltiadau. Bydd diwrnod o hyfforddiant ar gyfer pob modiwl.

Hyrwyddo eich prosiect am geiniog a dimai

30 Ionawr 2007 Bae Colwyn

Cost: **A** 100 **B** 130 **C** 165
Bydd y cwrs ymarferol hwn yn helpu i roi i'r cyfranogwyr y sgiliau a'r hyder i feithrin eu sgiliau hyrwyddo, o archwilio beth sy'n cymell eu cynulleidfa darged i ysgrifennu datganiadau i'r wasg effeithiol. Bydd y cynnwys datblygu cynllun gweithredu effeithiol a daw'r cyfranogwyr oddi yno gyda detholiad o gyfryngau a syniadau newydd i hyrwyddo eu prosiect mewn ffordd ymarferol a chost-effeithiol. Mae'r cwrs yn addas i staff ar bob lefel sydd â chyfrifoldeb dros gyhoeddusrwydd a hyrwyddo prosiectau unigol neu'r mudiad fel cyfangorff.

Cael sylw yn y cyfryngau lleol

31 Ionawr 2007 Bangor
Cost: **A** 100 **B** 130 **C** 165
Bwriedir y cwrs hwn ar gyfer y rhai hynny sy'n dymuno gwella a chynyddu eu sylw yn y cyfryngau. Mae'n addas ar gyfer swyddogion sydd â chyfrifoldeb dros gyhoeddusrwydd a hyrwyddo, rheolwyr gwirfoddolwyr, a rheolwyr prosiect. Bydd y cwrs yn galluogi i'r cyfranogwyr ddeall pa elfen o'u gwaith a fyddai'n gwneud newyddion da. Bydd y cyfranogwyr yn pwyso a mesur beth sy'n gwneud stori dda, beth y mae newyddiadurwyr yn chwilio amdano, a byddant yn cyfeirio at straeon unigol o fewn eu mudiad. Bydd y cwrs yn eich helpu i berffeithio'r ddawn o ysgrifennu datganiadau i'r wasg a chewch gyfrannu at sesiwn ymarferol i lunio strategaeth y cyfryngau.

Bandiau prisiau (Nid yw'r prisiau hyn yn cynnwys TAW)
A Aelodau WCVA
B Mudiadau gwirfoddol a chymunedol
C Cyrff y sector cyhoeddus a'r sector preifat
Am fwy o wybodaeth ewch i www.wcva.org.uk/training,
ffoniwch 02920 431723 neu e-bostiwch training@wcva.org.uk

CYNLLUN GOFODOL

‘Cynllun Gofodol Cymru’ - Braslun

“Mae ‘Cynllun Gofodol Cymru’ yn darlunio gweledigaeth ar gyfer datblygiad Cymru dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae’r weledigaeth hon yn amlinellu’r agenda ar gyfer y buddsoddiad sydd ei angen i sicrhau dyfodol cynaliadwy i gymunedau mawr a mân ledled Cymru.
Mae pum thema allweddol yn sail i’r cynllun hwn:

- adeiladu cymunedau cynaliadwy
- hyrwyddo economi gynaliadwy
- gwerthfawrogi ein hamgylchedd
- sicrhau hygyrchedd cynaliadwy
- parchu natur unigryw Cymru

Gogledd-orllewin Cymru - **Y Weledigaeth:**
‘Amgylchedd naturiol a ffisegol o ansawdd uchel sy’n cynnal economi seiliedig ar wybodaeth a diwylliant fydd yn gymorth i’r ardal i gynnal ei chymeriad unigryw, cadw a denu pobl ifanc yn ôl, a chynnal yr iaith Gymraeg.’

Beth sy’n digwydd yn eich ardal chi?
Yn Ngogledd-orllewin Cymru, mae’r partneriaid yn datblygu strategaeth ar gyfer yr ardal a fydd yn enwi cryfderau a chyfleoedd trefi, pentrefi ac ardaloedd gwledig. Mae cyfres o astudiaethau a gweithgareddau cydgysylltiedig yn cael eu cynnal i roi sylfaen gadarn, yn seiliedig ar dystiolaeth, i gefnogi’r strategaeth. Mae’r rhain yn cynnwys:
Gwaith ymchwil a rhagolygu er mwyn diffinio’r twf a’r dirywiad yn amryw o sectorau’r economi yn y dyfodol;
Gwaith i archwilio a deall deinameg y farchnad dai ac anghenion pobl o ran tai fforddiadwy;
Darparu’r wybodaeth ystadegol sydd ei hangen i gefnogi asesiad amgylcheddol strategol, yn ogystal ag i fonitro cynnydd a newid yn y dyfodol;
Gwaith i ddeall y materion o ran sgiliau sy’n wynebu’r ardal gyfan.

Beth yw Cynllunio Gofodol?

Cynllunio Gofodol yw’r broses o ystyried beth all ddigwydd, a beth ddylai ddigwydd, ymhle. Mae’n ymwneud â’r berthynas rhwng gwahanol bolisïau ac arferion ar draws rhanbarthau daearyddol, gan amlinellu rôl lleoedd mewn cyd-destun ehangach. Mae’n mynd ymhell y tu hwnt i’r ffordd ‘draddodiadol’ o gynllunio defnydd tir, ac mae’n disgrifio fframwaith strategol i lywio datblygiadau ac ymyriadau polisi yn y dyfodol, p’un a ydy’r rhain yn gysylltiedig â’r broses ffurfiol o reoli cynllunio defnydd tir neu beidio.

Am fwy o wybodaeth ffoniwch: 02920 823759
E-bostiwch: WSP@wales.gsi.gov.uk
neu ewch i http://www.cymru.gov.uk/cynllungofodolcymru